# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

**RHAN 6**

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

**PENNOD 1**

FFURFLENNI TRETH

*Addasiadau*

**49 Dychwelyd ffurflen dreth bellach pan dynnir rhyddhad yn ôl**

(1) Rhaid i'r prynwr mewn trafodiad tir ddychwelyd ffurflen dreth bellach i ACC os tynnir rhyddhad yn ôl i unrhyw raddau o dan—

(a) Atodlen 11 (bondiau buddsoddi cyllid arall);

(b) Atodlen 14 (rhyddhad ar gyfer caffaeliadau eiddo preswyl penodol);

(c) Atodlen 16 (rhyddhad grŵp);

(d) Atodlen 17 (rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael);

(e) Atodlen 18 (rhyddhad elusennau).

(2) Rhaid i ffurflen dreth a ddychwelir o dan yr adran hon—

(a) cael ei dychwelyd cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod y digwyddiad datgymhwyso, a

(b) cynnwys hunanasesiad.

(3) Y digwyddiad datgymhwyso yw—

(a) mewn perthynas â thynnu rhyddhad yn ôl o dan Atodlen 11, digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 14 o'r Atodlen honno;

(b) mewn perthynas â thynnu rhyddhad yn ôl ar gyfer caffaeliadau eiddo preswyl penodol o dan Atodlen 14, digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 8(1), (3) neu (4) o'r Atodlen honno;

(c) mewn perthynas â thynnu rhyddhad grŵp yn ôl o dan Atodlen 16, y prynwr yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr o fewn ystyr yr Atodlen honno;

(d) mewn perthynas â thynnu rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael yn ôl o dan Atodlen 17, digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(2) neu 7(2) neu (3) o'r Atodlen honno;

(e) mewn perthynas â thynnu rhyddhad elusennau yn ôl o dan Atodlen 18; digwyddiad datgymhwyso fel y'i diffinnir ym mharagraff 2(4), 5(2) neu 8(2) o'r Atodlen honno.

(4) Er gwaethaf adran 157(3) o DCRhT (llog taliadau hwyr), dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr mewn perthynas â swm—

(a) sydd wedi ei ddatgan mewn ffurflen dreth a ddychwelwyd o dan is-adran (1)(a) fel y dreth sy'n daladwy,

(b) sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad neu gywiriad i ffurflen dreth o'r fath,

(c) sy'n daladwy o ganlyniad i asesiad a wneir yn ychwanegol at ffurflen dreth o'r fath, neu

(d) sy'n daladwy o ganlyniad i ddyfarniad neu asesiad a wneir yn lle ffurflen dreth o'r fath,

yw'r diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r trafodiad cyntaf yn cael effaith (ac mae Pennod 1 o Ran 6 o'r Ddeddf honno i'w darllen yn unol â hynny).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (4) er mwyn rhoi cyfnod gwahanol yn lle'r cyfnod a bennir yno am y tro.